# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Mehefin 2001 i'w hateb ar 26 Mehefin 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cydlynu polisïau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y DU i fynd i'r afael ag effaith clwy'r traed a'r genau yng Ngogledd Cymru. (OAQ12155)

**2. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A fydd unrhyw fesurau newydd yn cael eu cyflwyno yn dilyn canfyddiadau Adroddiadau Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000. (OAQ12145)

**3. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau yr ydych chi wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch dulliau o ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ12139) **W**

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad am rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thrafodaethau ar ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd yng nghyfarfod Cyngor Ewrop yn Gothenburg. (OAQ12149)

**5. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y berthynas rhwng y cynigion yn gwellcymru.com a'r rhaglen a amlinellir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ12144)

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar rôl Cymru mewn materion rhyngwladol. (OAQ12157)

**7. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A fydd yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw uwchgynadleddau tramor yn ystod y flwyddyn nesaf. (OAQ12140)

**8. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y mae'n hysbysu'r cyhoedd am y camau ymlaen y mae ei weinyddiaeth yn eu cymryd o ran cyflawni'r polisïau a nodir yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ12138)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyfraniad y Cynulliad i Araith y Frenhines. (OAQ12151) **R**

**10. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ym mha ffordd y mae Ynys Môn wedi cael budd o'i benderfyniad i gymryd cyfrifoldeb arbennig dros gydlynu polisi yng Ngogledd Cymru. (OAQ12152)

**11. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddelio â chanfyddiadau Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000. (OAQ12148)

**12. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A yw'n fwriad ganddo fynd i unrhyw uwchgynadleddau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn hybu Cymru ledled y byd. (OAQ 12143)

**13. Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**; Pa gamau y mae wedi'u cymryd yn ddiweddar i sicrhau bod yr ymrwymiadau yn Rhoi Cymru'n Gyntaf yn cael eu gweithredu. (OAQ12142)

**14. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa effaith fydd y Swyddfa Gabinet ddiwygiedig yn Whitehall yn ei chael ar gydlynu polisi rhwng San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ12156)

**15. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag aelodau newydd Cabinet San Steffan er mwyn sefydlu perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ12161)

**16. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa effaith y mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i chael ar ddatblygu polisi'r Cynulliad. (OAQ12137)

**17. David Davies (Mynwy);** Sut mae gweithredu'r polisïau a nodwyd yn y Cytundeb Partneriaeth wedi gwella safon bywydau pobl ym Mynwy. (OAQ12153)

**18. Geraint Davies (Rhondda);** A yw'n bwriadu mynychu unrhyw uwchgynadleddau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn hybu Cymru. (OAQ12146)

**19. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynyddu atebolrwydd

cyhoeddus ei Gabinet. (OAQ12141)

**20. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ynghylch eu cais i Raglen Gweithredu Arloesol yr UE. (OAQ12154)

**21. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A oes cynlluniau ganddo i ddiwygio’r targedau a geir yn Rhoi Cymru’n Gyntaf. (OAQ12150)**TYNYWD YN OL**

**22. Gareth Jones (Conwy);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’r Gymuned Fusnes yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â chyflawni’r cynigion a geir yn Rhoi Cymru’n Gyntaf. (OAQ12147)

**23. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda chyrff perthnasol ynghylch effeithiau ehangu’r UE ar Gymru. (OAQ12158)**TYNYWD YN OL**